CANOLFAN MILENIWM CYMRU

EBRILL 2021 – MAWRTH 2022

# Y STORI HYD YMA



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

# CANOLFAN GELFYDDYDAU GENEDLAETHOL CYMRU



## NI YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU

## TANWYDD I'R DYCHYMYG

Canolfan Mileniwm Cymru yw'r ganolfan gelfyddydau genedlaethol, yn adeilad eiconig ym Mae Caerdydd ac yn hwb creadigrwydd i Gymru.

Mae Theatr Donald Gordon, ein theatr o'r radd flaenaf, yn croesawu'r sioeau rhyngwladol gorau i Gymru ac rydym hefyd yn creu ein cynyrchiadau ein hunain, gan roi llwyfan i straeon a thalent o Gymru yn rhyngwladol ac yn ddigidol.

Wrth wraidd ein holl weithgareddau mae ein gwaith gyda phobl ifanc, cymunedau ac unigolion creadigol ledled Cymru i sicrhau bod y celfyddydau yn hygyrch i bawb.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# MOLLY PALMER RADIO PLATFFORM


## "MAE FY MHROFIAD A'R HYFFORDDIANT RWYF WEDI'I GAEL GYDA CHANOLFAN MILENIWM CYMRU WEDI NEWID FY MYWYD.

A minne'n enedigol o'r cymoedd, dywedodd ffrind wrtha i am gwrs hyfforddi radio am ddim ar ôl i mi adael fy swydd i wneud rhywbeth mwy creadigol.

Ar ôl y cwrs, ymunes i â'r orsaf radio sy'n cael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan bobl ifanc fel fi. Rhoddodd hynny yr hyder i mi feithrin fy sgiliau creadigol ac fe ymroddes i'n llwyr i'r profiad. Ers 2018 rwyf wedi cynrychioli Canolfan Mileniwm Cymru ar Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi teithio ledled y DU yn addysgu radio i bobl ifanc ac wedi mynd i lu o ddigwyddiadau a gwyliau gyda ffrindiau newydd. Rwyf bellach yn ymgymryd â rôl cydgysylltwr yr orsaf yn y Porth, yn helpu eraill fel fi i ddarganfod eu llais, gan gyflwyno i S4C a gweithredu fel DJ ledled y de ar yr un pryd."

## "MAE CANOLFAN MILENIWM CYMRU WIR YN CREDU YM MHWYSIGRWYDD RHOI CYFLE I BOBL IFANC DDANGOS EU CREADIGRWYDD A CHYDGYNHYRCHU SIOEAU, HYFFORDDIANT A PHROFIADAU.

Yn ystod y pandemig rhoddodd gymorth i ni ddarlledu o'n cartrefi ein hunain a sefydlodd y criw ieuenctid er gwaethaf y sefyllfa anodd o ran cyllid ac adnoddau. Mae'r llwybrau i'w dilyn yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn ddiderfyn – gall wir fod yn fan cychwyn i fywyd rhywun."



Er gwaetha'r heriau a oedd yn ein hwynebu, rydym yn falch ein bod wedi cyflawni cymaint yn ystod y flwyddyn, gyda chefnogaeth ein cymunedau a'n teulu o gefnogwyr:




**3,000 O YMWELWYR**
AG ARDDANGOSFA AILAGOR DAN ARWEINIAD Y GYMUNED





**511 O ORIAU**
O OFOD YN DDI-DÂL I
**30+** O ARTISTIAID, GRWPIAU CYMUNEDOL AC YSGOLION





**224**
O WIRFODDOLWYR BRWD

WEDI TREIALU CYRSIAU HYFFORDDI LLAIS CREADIGOL NEWYDD YN GYFAN GWBL AR-LEIN



WEDI AILAGOR GYDA **CABARET**
A PHARHAU I GROESAWU
**CYNULLEIDFAOEDD AMRYWIOL**



WEDI DATBLYGU
**COMEDI GERDDOROL NEWYDD YN GYMRAEG**

WEDI GWEITHIO GYDA **50+**
O BARTNERIAID CYMUNEDOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL



**DIWYDIANNAU CREADIGOL YN ARDDANGOS YN Y PORTH**

WEDI CYDWEITHREDU Â
**60+ O BOBL IFANC**
I DDYLUNIO EIN GOFODAU CREU



DAETH **140,000** O BOBL I **250** O BERFFORMIADAU



**36** O SEDDI TALWCH BETH Y GALLWCH NEWYDD I'R GYMUNED YN THEATR DONALD GORDON

EIN CYNHYRCHIAD – THE BOY WITH TWO HEARTS
**13%** O ARCHEBWYR TOCYNNAU O
**GRWPIAU DU, ASIAIDD, CYMYSG AC ETHNIG AMRYWIOL O GYMHARU**
Â 3% AR GYFER SIOE FASNACHOL





WEDI LANSIO RHAGLEN **2 FLYNEDD**
I GYMDEITHION CREADIGOL




WEDI PARHAU I DDATBLYGU
**10** O
GYNYRCHIADAU'R DYFODOL



**12** O BOBL IFANC O'N RHAGLENNI YN CAEL CYNNIG CYFLEOEDD Â THÂL GYDA NI

Y DIGWYDDIAD CYSGU DROS NOS CYNTAF ERIOED I
**60 O BOBL IFANC**
O GRWPIAU IEUENCTID LLEOL


**RADIO PLATFFORM WEDI CYNHYRCHU A DARLLEDU**
**262** O SIOEAU, GAN GYNNWYS RHAI O GARTREFI'R STAFF



**2,800+** YN BRESENNOL MEWN **10** O RAGLENNI CELFYDDYDOL A CHREADIGOL I BOBL IFANC

Mewn blwyddyn arferol, rydym yn croesawu 1.8m o ymwelwyr. Yn 2021/22, er bod ein hadeilad ar gau yn gyfan gwbl tan fis Gorffennaf 2021, gan ailagor yn araf gyda chyfyngiadau a chau unwaith eto rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022, serch hynny daeth 318,000 o ymwelwyr drwy ein drysau, ac ymwelodd 935,000 â'n gwefan.

# PETER SWINBURN
## CADEIRYDD



### “MAE LLAWER WEDI NEWID YN Y 18 MLYNEDD ERS I GANOLFAN MILENIWM CYMRU AGOR.

Bryd hynny, bu ein ffocws ar feithrin cydberthnasau â chynhyrchwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn dod â'r sioeau rhyngwladol gorau i ni. Unwaith iddynt gael profiad o'n cyfleusterau gwych o flaen y llwyfan a'r tu ôl iddo, ac wrth gwrs ein cynulleidfaoedd gwych, llawn gwerthfawrogiad, roedd pawb eisiau dod nôl.

Roedd y llawenydd a'r ysbrydoliaeth a ddeilliodd o'r sioeau hyn yn amlwg a thrwy ein cyfran o'r refeniw o'r tocynnau hynny bu modd i ni ddechrau ein gwaith gwirioneddol fel canolfan gelfyddydau genedlaethol Cymru, gan gyflwyno'r celfyddydau a chreadigrwydd i bawb yng Nghymru.”

### “YN WAHANOL I'R RHAN FWYAF O'R THEATRAU MAWR, ELUSEN YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU.

Yn 2019/20 gwnaethom wario £24m. Daeth 80% o sioeau masnachol, gyda'r gweddill gan Gyngor Celfyddydau Cymru (15%) a thrwy roddion elusennol (5%). Oherwydd y llwyddiant busnes hwn roedd colli ein holl refeniw masnachol yn ystod pandemig Covid yn golygu ein bod yn un o'r sefydliadau celfyddydol a oedd yn wynebu'r anawsterau mwyaf yn y byd, o ystyried ein hymrwymiadau ariannol parhaus.

Roeddem yn benderfynol o barhau â'n gwaith o danio dychymyg y bobl ifanc, y cymunedau a'r unigolion creadigol a oedd yn dibynnu arnom ac roedd arnynt ein hangen yn fwy nag erioed.

Er bod ein hadeilad ar gau rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2021 ac unwaith eto rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022, gwnaethom barhau i gael effaith fel hwb creadigol ar-lein. Gweithiodd ein tîm craidd yn ddiflino i sicrhau y byddem mewn sefyllfa i ailagor cyn gynted ag y bo modd, gyda ffocws newydd ar gynhyrchu gwaith arloesol sy'n arddangos Cymru, codi dyheadau, sicrhau hygyrchedd a chael ein cydnabod fel un o sefydliadau celfyddydol blaenllaw'r byd.

### YN YSTOD Y CYFNOD PAN OEDDEM AR GAU LANSIWYD CYNLLUN DWY FLYNEDD I GYMDEITHION CREADIGOL A DDENODD WYTH ARTIST AMRYWIOL A'U GWAITH I FOD YN RHAN UNIONGYRCHOL O'N HOLL DIMAU, GAN ROI RHYDDID IDDYNT BARHAU I WEITHIO'N GREADIGOL AR EU LIWT EU HUNAIN.”

### “PAN AILAGORWYD EIN HADEILAD, DAETH EIN GWIRFODDOLWYR YN ÔL YN LLU I'N CEFNOGI.

Llanwodd ein cymuned ein theatrau, gan gynnwys ein seddi cymunedol newydd, a gwnaethom ehangu ein cyrsiau hyfforddi Llais Creadigol a dreialwyd ar-lein yn ystod y cyfnod pan oeddem ar gau. Ym mis Hydref 2021 agorwyd cynhyrchiad cyntaf Canolfan Mileniwm Cymru wedi'r pandemig, sef The Boy with Two Hearts. Wedi'i ddatblygu ar y cyd ag awdur o Gaerdydd, mae'n adrodd stori bwysig am gariad, teulu a pherthyn. Bydd yn trosglwyddo i'r National Theatre yn Llundain ym mis Hydref 2022.

### RYDYM YN HWB CREADIGOL ALLWEDDOL I GYMRU AC MAE ANGEN I NI BARHAU I YSBRYDOLI A MEITHRIN CREADIGRWYDD PAWB LEDLED Y WLAD.

Rydym yn cefnogi adferiad ein gwlad wedi'r pandemig, nid yn unig yn y diwydiannau creadigol ond ym mhob agwedd ar fusnes, lle mae angen creadigrwydd yn fwy nag erioed a lle y rhoddir mwy o werth ar greadigrwydd nag erioed. Y buddiolwyr mwyaf o bosibl yw ein pobl ifanc, y mae rhai ohonynt yn tyfu i fyny mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Drwy eu helpu i ddarganfod a defnyddio eu llais creadigol, byddwn yn helpu i newid bywydau ac yn galluogi ein gwlad i ffynnu.

### RYDYM WEDI LLUNIO RHAGLEN NEWID GYFFROUS SYDD Â'R NOD O'N TYWYS DRWY'R 18 MLYNEDD NESAF.

Rydym wrth ein bodd ar ble rydym yn mynd ac ni allwn aros i'ch tywys ar hyd y daith hon gyda ni.”

# MATHEW MILSOM
## RHEOLWR GYFARWYDDWR

**"PAN EDRYCHAF YMLAEN AT YR EFFAITH A GAWN FEL CANOLFAN GELFYDDYDAU GENEDLAETHOL CYMRU YN Y DYFODOL, NI ALLAF FEDDWL AM LE MWY CYFFROUS NAC YSBRYDOLEDIG I FOD YN RHAN OHONO.**

Er gwaethaf heriau'r ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi dod drwy'r pandemig gyda ffocws newydd a hyd yn oed mwy o uchelgais. Gwyddom y gwahaniaeth y gallwn ei wneud am ein bod yn gwrando ar y rhai rydym eisoes yn gweithio gyda nhw – felly rydym am wneud rhagor.

**MWY O GYRSIAU HYFFORDDI SGILIAU CREADIGOL AM DDIM I BOBL IFANC, MWY O'N CYNYRCHIADAU EIN HUNAIN A MWY O WAITH GYDA CHYMUNEDAU LEDLED CYMRU.**

Er mwyn gwneud hyn yn bosibl, rydym yn trawsnewid ein hadeilad, gan weithio gyda'n cymuned er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer ei ffocws newydd fel hwb creadigol. Pan oeddem ar gau, cafodd mannau cyfarfod eu hailwampio'n fannau creadigol ac rydym wrthi'n gosod caffi a bar Croeso newydd yn lle'r ddesg docynnau hir, yn ogystal ag adnewyddu ein gofod cabaret poblogaidd a'n lolfa i aelodau."

**"CYN GYNTED AG Y BO MODD, BYDDWN YN ADEILADU STIWDIOS "CREU" PARHAOL** mewn mannau na wneir defnydd digonol ohonynt y tu ôl i'r Glanfa, ein prif gyntedd, fydd yn gallu cael eu defnyddio i hyfforddi sgiliau, gan bobl ifanc ac unigolion creadigol, ysgolion a sefydliadau creadigol eraill, gan gynnwys yr wyth cwmni preswyl sydd yma. Bydd hyn yn rhoi mynediad i'r dechnoleg a'r cyfarpar realiti rhithwir diweddaraf, yn ogystal â gweithdai wedi'u cyfarparu'n llawn ar gyfer gweithgareddau fel dylunio setiau a gwneud gwisgoedd.

**MAE'R STIWDIOS WEDI CAEL EU CYD-DDYLUNIO GAN Y RHAI A FYDD YN EU DEFNYDDIO A CHÂNT EU RHEDEG GAN A THROS BOBL IFANC, GAN ADLEWYRCHU EIN HETHOS FEL SEFYDLIAD SY'N RHOI LLAIS I BAWB.**

Byddwn yn tyfu'n rhy fawr hyd yn oed i'r datblygiadau hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd angen mwy o ofod ymarfer a chynhyrchu ar gyfer ein gwaith ein hunain, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol a phenodol i'r diwydiant er mwyn cefnogi ein sector a dod yn rhan allweddol o'r broses o drawsnewid Bae Caerdydd yn ardal ddiwylliannol o'r radd flaenaf."

**"NI ALLWN GYFLAWNI HYN HEB GEFNOGAETH EIN HOLL GYMUNED, FELLY DIOLCH O GALON I CHI I GYD, EIN TIMAU, EIN HAELODAU, EIN CEFNOGWYR A'N CYLLIDWYR. BYDDWN YN TANIO'R DYCHYMYG LEDLED CYMRU AM GENEDLAETHAU I DDOD."**



# CODI UCHELGAIS

Rydym yn canolbwyntio ar ysbrydoli a meithrin creadigrwydd y genhedlaeth nesaf. Caiff syniadau, gwybodaeth a safbwyntiau unigryw eu cyfnewid â'r bobl ifanc rydym yn cydweithio â nhw, ac rydym yn eu helpu i ennyn hyder, dysgu sgiliau a dod i ddeall y diwydiannau creadigol. Rydym am sicrhau eu bod yn cael lle ar lwyfan y byd i adrodd eu straeon a pharhau i ailddiffinio diwylliant Cymru a chreu'r Gymru y maent am ei gweld yn y dyfodol.

Drwy'r rhaglenni a gynigiwn, gall pobl ifanc ddysgu sgiliau penodol ac ennill cymwysterau a fydd yn eu galluogi i ddod o hyd i gyfleoedd newydd a chreu cyfleoedd newydd yn y dyfodol, megis creu cynnwys digidol. Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu ein hyfforddiant a'n profiadau ochr yn ochr â'r rhai a fydd yn cael budd ohonynt, gan sicrhau bod yr hyn a gynigiwn yn berthnasol ac mor fuddiol â phosibl.





# SBOTOLAU
# LLAIS CREADIGOL

Rhaglen o gyrsiau chwe wythnos am ddim i bobl ifanc 14–25 oed yw Llais Creadigol. Y nod yw ysgogi creadigrwydd, adrodd straeon a rhoi sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau i bobl ifanc ddatblygu eu diddordebau ymhellach.

Rydym yn datblygu'r cyrsiau gyda'r bobl ifanc a fydd yn cael budd ohonynt ac yn ystod y pandemig parhawyd i'w dylunio a'u treialu ar-lein. Maent yn agored i bawb ond rydym yn targedu'r rhai o ardaloedd difreintiedig.

Ers ailagor rydym wedi cyflwyno'r cyrsiau wyneb yn wyneb, yn ogystal â pharhau i gyflwyno rhai ar-lein er mwyn annog pobl ifanc o bob cwr o Gymru i gymryd rhan. Rydym yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol llawrydd i gyflwyno'r cyrsiau ac maent yn cynnwys cyhoeddi, gemau cyfrifiadurol, theatr, dylunio gwisgoedd a llawer mwy.

- MAE'R PARTNERIAID YN CYNNWYS: PROMO CYMRU, CWMNI THEATR COMMON WEALTH, SCREEN ALLIANCE WALES
- 13 O GYRSIAU
- 100 O BOBL IFANC
- 12 O ORIAU O HYFFORDDIANT YM MHOB CWRS GAN WEITHWYR PROFFESIYNOL YN Y DIWYDIANT

**“YR HYN A FWYNHEUES I FWYAF OEDD DYSGU SUT I FOD YN FWY HYDERUS DRWY CHWARAE GEMAU BWRDD CHWARAE RÔL, GWAITH BYRFYFYR, CWRDD Â PHOBL NEWYDD SY'N RHANNU'R UN DIDDORDEBAU Â MI.”**

Un o gyfranogwyr Llais Creadigol

Yn 2022/23 rydym yn gobeithio rhedeg 20 o gyrsiau hyfforddi chwe wythnos, gan gyrraedd 125 o bobl ifanc newydd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd y rhain yn gyfuniad o'r cyrsiau poblogaidd presennol a'r rhai a ddatblygir mewn ymateb i adborth gan bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar bedwar maes: radio, cerdd, digidol, a pherfformiad.



# SBOTOLAU
# YN GRYFACH YNGHYD

Prosiect partneriaeth rhwng Canolfan Mileniwm Cymru a Phlant y Cymoedd yw Yn Gryfach Ynghyd. Ers 2018 rydym wedi cynnal gweithdai, cyrsiau byrion a digwyddiadau yn y Porth a'r cyffiniau sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc gael profiad o wahanol ffurfiau celfyddydol, dysgu sgiliau a chymryd rhan mewn gweithgarwch hirdymor. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i fynd i'r afael ag effaith ddinistriol tlodi ar fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng nghymunedau cyn-lofaol Rhondda Cynon Taf, a oedd eisoes yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Ewrop, sefyllfa sydd wedi mynd yn waeth ers y pandemig.

## HACIO BYWYD

**“FEL RHAN O'N PARTNERIAETH, CYNHELIR HACIO BYWYD, SEF DIGWYDDIAD YSBRYDOLEDIG AM DDIM LLE Y GALL POBL IFANC GWRDD Â GWEITHWYR PROFFESIYNOL YN Y DIWYDIANT A CHYMRYD RHAN MEWN GWEITHDAI RHYNGWEITHIOL, CREADIGOL.”**

Alan Humphreys – Cynhyrchydd Dysgu Creadigol, Canolfan Mileniwm Cymru

- **ROEDD 80% O'R GYFRANOGWYR YN CYTUNO'N GRYF BOD HACIO BYWYD WEDI EU HELPU I DDEALL PA YRFAOEDD CREADIGOL SYDD AR GAEL**
- **ROEDD 70% YN CYTUNO'N GRYF BOD HACIO BYWYD WEDI RHOI HWB I'W HYDER**

## YMYRIADAU PWERUS

Arddangosodd ein gŵyl gerdd ryngwladol, Llais, ‘Ymyriadau Pwerus’ – cyfres o ymyriadau creadigol sy'n rhoi llais i bobl ifanc, gan amrywio o ran maint, ffurf a chynnwys, y mae pob un ohonynt yn archwilio ‘pŵer’. Deilliodd y gwaith hwn o'n partneriaeth Yn Gryfach Ynghyd â Phlant y Cymoedd, gan roi cyfle i bobl ifanc o'r cymoedd gydweithio â'r artist Bethan Marlow.

- **CYFRANNODD 61 O BOBL IFANC TUAG AT YMYRIADAU PWERUS**
- **11 O BERFFORMIADAU MEWN 8 CYNHYRCHIAD**

**“MAE WEDI RHOI'R HYDER I NI FOD YN FWY CYMDEITHASGAR, GOFALU AM EIN GILYDD A CHAEL HWYL WRTH WNEUD HYNNY.”**

Perfformiwr ifanc

Yn 2022/23 byddwn yn parhau i gydgynhyrchu ac arddangos ein prosiectau yng nghanolfannau Plant y Cymoedd, gan gynnwys Llais Creadigol a Radio Plattfform. Byddwn yn cynnal Hacio Bywyd unwaith eto yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac yn y cymoedd, a fydd yn cynnwys dros 60 o bobl ifanc mewn gweithdai a rhwydweithio â'r diwydiant.

# SBOTOLAU RADIO PLATFFORM

Gorsaf radio a arweinir gan bobl ifanc a rhaglen hyfforddi yw Radio Platfform. Ers 2018 rydym wedi cynnig cwrs hyfforddi chwe wythnos wedi'i achredu'n llawn i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ar bob agwedd ar radio – o gyflwyno i gynhyrchu o'u stiwdio eu hunain yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, ac yn 2019 agorwyd ail orsaf yn y Porth yn y cymoedd.

Gall graddedigion ddewis ymuno â'r orsaf radio a/neu ddefnyddio eu sgiliau newydd yn yr ysgol, neu i ddatblygu eu gyrfaoedd. Gan weithio gyda'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan, rydym wedi parhau i ddatblygu Radio Platfform, ac mae'r prosiect wedi ysbrydoli ein rhaglen Llais Creadigol ehangach. Yn 2021/22 dechreuodd cyrsiau ar-lein, a barhaodd ochr yn ochr â sesiynau wyneb yn wyneb pan ailagorwyd ein hadeilad.

- GWNAETH 50+ O BOBL IFANC GREU A DARLLEDU SIOEAU
- CAFODD 60+ O BOBL IFANC HYFFORDDIANT
- CYMERODD 300+ O BOBL IFANC RAN MEWN GWEITHDAI
- 5 RÔL Â THÂL I BOBL IFANC I REOLI'R ORSAF

# STORI PRENDY

**Ymunodd Prendy â chwrs hyfforddi Radio Platfform yn 2019 ac mae bellach wedi'i gyflogi'n gynorthwyydd prosiect ar ein rhaglen Llais Creadigol:**

“MAE RADIO WEDI BOD YN BETH GWYCH I MI. ROEDDWN WEDI GWNEUD YCHYDIG BACH O RADIO, OND DW I DDIM WEDI DILYN CWRS HYFFORDDI FEL CYMHWYSTER ACHREDEDIG MEWN GWIRIONEDD.

Fe ddes i lawr yma, dilyn y cwrs chwe wythnos ac wedyn ar ôl hynny, roeddwn i'n gallu recordio fy sioe fy hun, cyflwyno fy sioe fy hun a dechrau mynd i ddigwyddiadau i gyfweld ag artistiaid a chreu llawer o gynnwys... Mae'n amgylchedd cyfeillgar iawn gyda llawer o bobl ifanc eraill, felly rydych chi'n cwrdd â phobl sydd hefyd yn greadigol neu sydd â diddordeb ym maes radio. Ar ôl cael yr hyfforddiant yma, roeddwn i'n gallu gwneud sioe ar Radio Cardiff... Mae cymaint o wahanol ffurfiau celfyddydol ar gael yma i bobl ifanc, fel ffilm, gemau cyfrifiadurol, celf, ffotograffiaeth, actio. Felly, mynnwch gip arni hi.”

Yn 2022/23 byddwn yn hyfforddi 84 o bobl ifanc yn ystod saith cwrs Radio Platfform, a fydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd rolau â thâl yn parhau i fod ar gael i'r rhai sy'n dod drwy'r rhaglen a byddwn yn parhau i fynd ar sioeau teithiol gyda Radio Platfform mewn lleoliadau addysg a lleoliadau yn y trydydd sector.

# SBOTOLAU PRENTISIAETHAU

Fel canolfan gelfyddydau genedlaethol Cymru, rydym yn cydnabod y prinder technegwyr theatr cymwysedig ledled y DU a'n cyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn drwy hyfforddi cenhedlaeth newydd, amrywiol o bobl ifanc.

Rydym yn rhedeg Cynllun Prentisiaid Technegol a Rennir Cymru, sy'n rhoi hyfforddeion ifanc mewn lleoliadau ledled Cymru sy'n cefnogi eu llwyth gwaith, yn dod â dealltwriaeth newydd ac yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn y diwydiant.

- **3–5 PRENTIS AM FLWYDDYN**
- **AMSER LLAWN Â THÂL**
- **MEWN PARTNERIAETH Â CHOLEG CAERDYDD A'R FRO A SEFYDLIADAU SY'N RHAN O'R RHAGLEN: THEATR CLWYD, THEATR BRYCHEINIOG A CHANOLFAN Y CELFYDDYDAU, ABERYSTWYTH**



# STORI BETHANY

**Ymunodd Bethany â ni fel prentis technegol yn 2020. Cyn hyn, cynyrchiadau ysgol oedd ei hymwneud ymarferol diwethaf ym maes theatr.**

**“...ROEDDWN I'N MEDDWL, BETH AM ROI CYNNIG AR HYN A GWELD BETH SY'N DIGWYDD. ROEDD GEN I YCHYDIG O DDIDDORDEB YN Y SECTOR CREADIGOL ERS BLYNYDDOEDD, OND ROEDDWN AM WNEUD RHYWBETH TECHNEGOL HEFYD.**

Ac rwy'n credu bod byd theatr yn ffordd dda iawn o gyfuno'r rheini. Mae'r cynllun yn cynnwys gweithio gyda'r holl adrannau mewn theatr...

**DOES DIM DIWRNOD ARFEROL, DDYWEDWN I. MAE HYNNY'N GOLYGU EI BOD YN GYFFROUS, MAE RHYWBETH DIDDOROL YN DIGWYDD DRWY'R AMSER, AC RYDYCH YN CWRDD Â LLAWER O BOBL GREADIGOL AC YN CAEL CYFLE I WEITHIO AR RAI SIOEAU ANHYGOEL.**

Mae'n syndod i mi faint y gallwch ei ddysgu mewn cyfnod mor fyr. Ac yn fwy na hynny, mae fy ffitrwydd corfforol wedi gwella gryn dipyn. Rwyf bellach wedi ennill tri chymhwyster technegol mewn sain, goleuo a llwyfan. I unrhyw un sy'n meddwl am y peth, ewch amdani. Yr unig beth rwy'n ei ddifaru dwi'n meddwl yw fy mod i ddim yn gwybod am y peth cyn hyn.”

Yn 2022/23 bydd ein Cynllun Prentisiaid Technegol yn hyfforddi chwe phrentis newydd, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac yn y tri sefydliad sy'n cymryd rhan.

# YN HYGYRCH I BAWB

Mae ein gwaith cymunedol yn cael ei lywio gan y cymunedau eu hunain. Mae'r ffaith ein bod rhannu ein hadeilad â chynulleidfaoedd, cymunedau ac artistiaid yn rhan o hud Canolfan Mileniwm Cymru.

Yn ystod y flwyddyn parhawyd i adeiladu ar y cydberthnasau cadarnhaol a ddatblygwyd â'n partneriaid cymunedol yn ystod y pandemig, gan weithio'n ddigidol ac wyneb yn wyneb i wella ein cyrhaeddiad. Ailgyflwynwyd ein gweithdai a'n gweithgareddau wyneb yn wyneb am ddim i deuluoedd, côr cymunedol Sing Proud Cymru ac ymgyngoriadau â'n cymunedau.










# SBOTOLAU EICH LLAIS

Rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2021 ailagorwyd ein hadeilad gydag arddangosfa nodedig, Eich Llais, a grëwyd gan ac ar y cyd â'r gymuned leol a chenedlaethol.

Creodd y gymuned weithiau celf mewn ymateb i'w profiadau bywyd – o'r cyfnod clo i wrthdystiadau Mae Bywydau Du o Bwys, ac o adfer yr amgylchedd i'w gobeithion ar gyfer y dyfodol. Daeth ein hadeilad cyfan yn oriel enfawr ac roedd ymwelwyr yn gallu cerdded ar ein llwyfan a gweld ardaloedd nad ydynt yn hygyrch i'r cyhoedd fel arfer. Roeddem am roi ffocws i'n cymunedau ynghyd â mynegiant creadigol.

- **3,000 O YMWELWYR**
- **300 O DDARNAU O GELF**
- **ARTISTIAID 4–90 OED O BOB CWR O GYMRU**
- **3 ARTIST LLEOL WEDI'U COMISIYNU I GREU GWAITH DRWY GYLLIDEBU CYFRANOGOL (A DDEWISWYD DRWY BLEIDLAIS GAN Y GYMUNED LEOL)**
- **SIOP A OEDD YN CAEL EI RHEDEG GAN ARTISTIAID LLEOL A OEDD YN ARDDANGOS EU GWAITH**
- **9 GWEITHDY I DEULUOEDD**

Yn 2022/23 byddwn yn parhau i ddefnyddio cyllidebu cyfranogol i weithio gydag artistiaid lleol i wneud ein mannau cyhoeddus yn lleoedd llawn ysbrydoliaeth. Byddwn yn cynnal dros 50 o weithdai a gweithgareddau am ddim i deuluoedd, a fydd yn cynnwys dros 5,000 o aelodau'r gymuned a pherfformwyr. Byddwn yn dathlu digwyddiadau diwylliannol, gan gynnwys Eid a Diwali, gan weithio gyda mwy na 20 o bartneriaid cymunedol, gan gynnwys Race Council Cymru, Oasis Caerdydd a Chymdeithas Tai Cymdeithasol Caerdydd.



# SBOTOLAU
# CARNIFAL TREBIWT

Rydym wedi gweithio gyda Chymdeithas Celfyddydau a Diwylliant Trebiwt ar Garnifal Trebiwt ers 2014, gan ei helpu i gynyddu maint ac effaith ei digwyddiad blynyddol i Gymru.

Er gwaethaf y cyfyngiadau a oedd wedi parhau yn 2021, cynhaliwyd digwyddiad ar y cyd â'r Gymdeithas dros benwythnos gŵyl y banc ym mis Awst a ddathlodd ei chymuned a'i diwylliant gyda cherddoriaeth fyw a chelf.

- **400+ O BERFFORMWYR A CHYNULLEIDFA**
- **MEWN PARTNERIAETH Â CHYMDEITHAS CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT TREBIWT, PEDAL POWER AC OASIS CAERDYDD**

> **"MAE'N CYNNWYS CELF, DAWNS, THEATR, CERDDORIAETH. MAE'N RHYWBETH Y MAE ANGEN IDDO BARHAU AM FOD ANGEN I NI EI DROSGLWYDDO I'R TO IFANC."**
>
> Yr Artist June Campbell-Davies

Yn 2022/23 byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gymdeithas ar Garnifal Trebiwt dros ŵyl y banc ym mis Awst a byddwn yn rhoi cyfle i grwpiau cymunedol berfformio ar ein llwyfan Donald Gordon, gan gynnwys yn ystod digwyddiadau arbennig fel Dydd Gŵyl Dewi.



# SBOTOLAU
# MYNEDIAD A SEDDI CYMUNEDOL

Rydym wedi bod yn awyddus o'r dechrau i gynnig mwy o seddi theatr cost isel i'n cymunedau, ond mae hyn wedi bod o fewn rheolaeth y cynhyrchwyr sy'n dod â'u sioeau i ni. Pan oedd ein hadeilad ar gau, adeiladwyd 36 o seddi newydd mewn safle da yn Theatr Donald Gordon, a ni sy'n cael eu dosbarthu ar gyfer pob perfformiad.

Erbyn hyn, cynigir tocynnau talwch beth y gallwch i'r rhai sydd leiaf tebygol o allu fforddio cost y sioeau mawr ar ein prif lwyfan. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ehangu'r grŵp o lysgenhadon cymunedol gwirfoddol sydd, a hwythau wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau, yn ein helpu i ddosbarthu'r tocynnau hyn rhwng cymheiriaid ac ar lawr gwlad.

- **258 O DOCYNNAU CYMUNEDOL MEWN 9 CYNHYRCHIAD**
- **3,000 O DOCYNNAU WEDI'U GWERTHU DRWY HYNT I'R RHAI SYDD Â NAM NEU OFYNIAD PENODOL O RAN MYNEDIAD**
- **CAPSIYNU CREADIGOL A DISGRIFIAD SAIN YN EIN HOLL GYNYRCHIADAU**

“**DOEDDWN I ERIOED WEDI BOD I'R LLEOLIAD O'R BLAEN, ALLWN I DDIM FFORDDIO'R TOCYNNAU NA'R TRÊN I GYRRAEDD YNO.** Roedd hi'n sioe anhygoel, fe wnaeth yr adeilad, y gerddoriaeth a'n seddi greu argraff enfawr arna i. Anghofia i byth y profiad.”

“**RWY'N OFALWR LLAWN AMSER I'M MAB ANABL. OHERWYDD COVID, DW I DDIM WEDI CAEL SEIBIANT ERS DROS DDWY FLYNEDD.** Roedd yn fraint cael y cyfle i fynd, ac roedd y bws i fynd â ni yno yn berffaith, fyddwn i byth wedi gyrru i Gaerdydd.”

Deiliaid tocynnau rhai o'n seddi cymunedol

Yn 2022/23 byddwn yn cynnig tocynnau cymunedol ar gyfer pob un o'r 22 o gynyrchiadau, gan gynnwys ein cynyrchiadau ein hunain yn Stiwdio Weston, yn ogystal ag ehangu'r gronfa o lysgenhadon cymunedol sy'n helpu i hyrwyddo'r cynllun. Byddwn yn parhau i hyrwyddo ein cynnig o docynnau o dan Hynt a gweithio gyda chynhyrchwyr i gynnig mwy o berfformiadau ymlaciedig o sioeau sy'n rhedeg. Y nod yw cynnig profiad hygyrch i bobl sydd ag awtistiaeth, anawsterau dysgu neu anghenion synhwyraidd a chyfathrebu eraill.

# SBOTOLAU GWEITHIO GYDAG YSGOLION

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol, gan gynnig diwrnodau dysgu creadigol i roi cipolwg ar y gwaith a wnawn a helpu pobl ifanc i ddod i wybod am gyfleoedd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Mae Partneriaethau Gwerthfawr wedi cael ei sefydlu gydag ysgolion drwy Gyrfa Cymru i gynnig trosolwg o "Beth sy'n digwydd o dan y to hwn?" Mae'r bobl ifanc yn rhyngweithio'n agos â'n timau Adnoddau Dynol, Technegol a Dysgu Creadigol, sy'n rhoi cipolwg unigryw ar y diwydiant creadigol iddynt.

Rydym hefyd wedi cynnig tocynnau am bris gostyngol i ysgolion yn Theatr Donald Gordon i gynyrchiadau sy'n debygol o apelio i ysgolion.

- **81 O DOCYNNAU AM BRIS GOSTYNGOL I YSGOLION WEDI'U PRYNU AR GYFER NUTCRACKER MATTHEW BOURNE, A ARBEDODD BRON £3,000 I'R YSGOLION**
- **10 DIWRNOD PARTNERIAETHAU GWERTHFAWR – 72 O DDISGYBLION O 4 YSGOL**
- **GWEITHIO GYDA GYRFA CYMRU**



Yn 2022/23 byddwn yn parhau i estyn cyrhaeddiad ein rhaglen Partneriaethau Gwerthfawr, a hefyd yn dwysáu ein partneriaethau presennol â phedair ysgol leol sy'n cynnwys dros 70 o ddisgyblion 14 i 16 oed. Bydd tocynnau am bris gostyngol i ysgolion yn parhau i fod ar gael ar gyfer sioeau poblogaidd.

# GWAITH ARLOESOL I ARDDANGOS CYMRU

Tynnodd pandemig Covid sylw at ein dibyniaeth ar gynhyrchwyr masnachol i gyllido ein gwaith ac o ran cael ein cynnwys digidol ein hunain i'w rannu ar-lein. O ganlyniad, rydym yn rhoi mwy o ffocws nag erioed ar feithrin ein henw da fel tŷ cynhyrchu o'r radd flaenaf sy'n gweithio gyda thalent o Gymru i ddatblygu straeon pwysig ac amrywiol i'w rhannu'n rhyngwladol, boed hynny ar ein llwyfannau neu'n ddigidol.



## CYNYRCHIADAU GAN GANOLFAN MILENIWM CYMRU

- 5 CYNHYRCHIAD
- 1 CYNHYRCHIAD DIGIDOL
- 10 CYNHYRCHIAD YN YR ARFAETH
- WEDI CEFNOGI AC WEDI CYDWEITHIO Â 100+ O ARTISTIAID
- YMCHWIL A DATBLYGU AR 30 O SYNIADAU
- STRAEON, ARTISTIAID A CHYNULLEIDFAOEDD MWY AMRYWIOL

# SBOTOLAU THE BOY WITH TWO HEARTS

Llwyddiant ysgubol 2021/22 oedd ein cynhyrchiad The Boy with Two Hearts, a gafodd ei ysgrifennu gan Hamed Amiri a'i addasu'n gynhyrchiad llwyfan gan Hamed a'r llenor Phil Porter.

Mae The Boy with Two Hearts, fel y stori gyntaf am ffoaduriaid i Gymru i'w llwyfannu, yn dangos ein hymrwymiad i gynhyrchu gwaith cyfoes ac arloesol sy'n diddanu ac yn herio ein cynulleidfaoedd, yn adrodd straeon newydd ac yn rhoi llwyfan i leisiau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol, gan ddathlu Cymru yn ei holl amrywiaeth.

- **WEDI AILAGOR STIWDIO WESTON YM MIS HYDREF 2021**
- **SYLW DROS Y DU GYFAN GYDAG ADOLYGIADAU 4/5***
- **3,500 O BOBL WEDI GWELD Y CYNHYRCHIAD**
- **13% O DOCYNNAU WEDI'U HARCHEBU GAN GRWPIAU DU, ASIAIDD, CYMYSG AC ETHNIG AMRYWIOL** (O GYMHARU Â 3% AR GYFER EIN SIOEAU MASNACHOL)



“**PAN WELES I'R RHES GYNTAF, ALLWN I DDIM CREDU FY LLYGAID.** Menyw mewn hijab gyda thair menyw arall yn gwisgo hijab... grŵp o fechgyn a oedd yn edrych yn debyg i mi, yn gwenu'n ôl fel petaent yn dweud ‘rydyn ni'n dy gefnogi di’ ac yn hapus i weld rhywun oedd yn edrych yn debyg iddyn nhw ar y llwyfan hwnnw, yn gwneud y gwaith yma.”

Farshid Rokey a chwaraeodd ran Hamed

“**DESERVES AS WIDE AN AUDIENCE AS POSSIBLE, FROM SCHOOL CHILDREN TO POLITICIANS.**”

The Guardian

“**Y GYNULLEIDFA FWYAF DIWYLLIANNOL AMRYWIOL A WELES I ERIOED MEWN UNRHYW THEATR YN UNRHYW LE.**”

Aelod o'r gynulleidfa, y cyfryngau cymdeithasol


Yn 2022/23 bydd The Boy with Two Hearts yn trosglwyddo i'r National Theatre yn Llundain. Rydym hefyd yn gwneud lle ar ein llwyfan Donald Gordon ar gyfer ein cynyrchiadau ein hunain yn y dyfodol, gan gynnwys cynyrchiadau yn Gymraeg.

# SBOTOLAU
# YMESTYN FFINIAU DIGIDOL

Daeth 1,500 o bobl i weld **Ripples of Kindness**, ein profiad digidol am ddim a gynhaliwyd ar y cyd â The Boy with Two Hearts. Roedd cynulleidfaoedd mewn setiau pen realiti rhithwir yn gallu 'eistedd' a rhyngweithio â'r teulu Amiri wrth iddynt adrodd eu stori. Dyma'r darn digidol mawr cyntaf a grëwyd gennym.

- **59% O ARCHEBWYR AR-LEIN YN NEWYDD I GANOLFAN MILENIWM CYMRU**

> **"BU'N BROFIAD HUDOL YN EISTEDD AM BRYD O FWYD GYDA'R TEULU YN GWYBOD BETH OEDD EU TAITH."**
> Aelod o'r gynulleidfa




Yn 2022/23 byddwn yn parhau i brofi a chreu ein gwaith digidol ochr yn ochr â'n holl gynyrchiadau newydd. Drwy broses gydweithredol datblygu Ripples of Kindness rydym wedi datblygu arbenigedd a seilwaith digidol allweddol, ac mae derbyniad y gynulleidfa wedi rhoi'r hyder i ni fod yn fwy uchelgeisiol o ran y straeon a adroddwn.







# SBOTOLAU
# XXXMAS CAROL

Yn ystod haf 2021/22 ailagorwyd gyda'n rhaglen cabaret newydd ei lansio yn Stiwdio Weston.

Mae ein rhaglen cabaret yn adeiladu ar y perfformiadau a gynhaliwyd yn Ffresh cyn y pandemig ac yn cynnig cyfle gwych i ni ddathlu amrywiaeth a chefnogi lleisiau a ffurfiau celfyddydol newydd mewn lleoliad unigryw a phersonol.

Gwnaeth XXXmas Carol, y sioe gabaret gyntaf i'w chynhyrchu gan Ganolfan Mileniwm Cymru, ddenu cynulleidfaoedd ac artistiaid newydd:

- **1,200 O BOBL WEDI GWELD Y SIOE**
- **4% O ARCHEBWYR TOCYNNAU YN ANNEURYWIOL** (O GYMHARU Â 0.6% AR GYFER EIN SIOEAU MASNACHOL)
- **25%+ O ARCHEBWYR TOCYNNAU YN UNIAETHU'N BOBL HOYW NEU DDEURYWIOL** (O GYMHARU Â 10% AR GYFER EIN SIOEAU MASNACHOL)
- **POB UN O'R ARTISTIAID YN NEWYDD I GANOLFAN MILENIWM CYMRU**

> **"IT'S A FESTIVE CORKER – FEATURING DRAG, BURLESQUE, CIRCUS & COMEDY... NOT FOR THE FAINT OF HEART! WE DIDN'T STOP LAUGHING."**
> Cardiff Life

Yn 2022/23 byddwn yn llwyfannu perfformiad cabaret arall gan Ganolfan Mileniwm Cymru adeg y Nadolig, cyn lansio tair rhaglen gabaret lawn y flwyddyn o fis Chwefror pan fydd ein gofod cabaret newydd yn agor.

# SBOTOLAU LLAIS



Mae ein gŵyl flynyddol, Llais (a elwid yn Festival of Voice/Gŵyl y Llais yn gyntaf), yn dwyn ynghyd berfformwyr rhyngwladol blaenllaw a thalent newydd o Gymru, pobl ifanc a chymunedau i ddathlu'r un offeryn rydym i gyd yn ei rannu – y llais.

Ym mis Hydref 2021 llwyddwyd i gynnal yr ŵyl yng Nghanolfan Mileniwm Cymru unwaith eto, ond ar ffurf lawer llai oherwydd risgiau'r pandemig a phrinder cyllid. Rai diwrnodau cyn yr ŵyl, cyflwynwyd pasbortau brechu yng Nghymru.

Serch hynny, llwyddwyd i dreialu nifer o syniadau newydd yn 2021, ac mae'r cyfle i ddatblygu'r ŵyl yn y dyfodol fel rhan allweddol o ddigwyddiad diwylliannol mawr Cyngor Caerdydd, sef 'Dinas Gerdd Caerdydd', yn un amlwg.

- **1,400+ O DOCYNNAU WEDI'U GWERTHU**
- **4 DIWRNOD O DDIGWYDDIADAU YM MHOB RHAN O'N HADEILAD**
- **40+ O ACTAU, GAN GYNNWYS HOT CHIP A GRUFF RHYS**
- **CYMYSGEDD O DDIGWYDDIADAU AM DDIM A DIGWYDDIADAU Y CODIR TÂL AMDANYNT**
- **YN ARDDANGOS GWAITH GAN EIN PARTNERIAETH YN GRYFACH YNGHYD**

Yn 2022/23 bydd gŵyl Llais yn cael ei chynnal rhwng 26 a 30 Hydref 2022 a bydd yn gosod y sylfeini i dyfu'n rhan bwysig o'r calendr gwyliau rhyngwladol o fewn pum mlynedd.

# O'R RADD FLAENAF

Fel y ganolfan gelfyddydau genedlaethol, mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod popeth a wnawn o'r radd flaenaf, gan ysbrydoli eraill a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadeilad a'n maint i gael yr effaith fwyaf bosibl dros Gymru a'n holl gymunedau.



# SBOTOLAU
# PROSIECT CAPELLA

Ein rhaglen newid i Ganolfan Mileniwm Cymru dros y 10 mlynedd nesaf yw Prosiect Capella. Ei nod yw sicrhau ein bod yn goleuo'r ffordd i bawb gael budd o'r celfyddydau a'n bod yn rhoi cymuned a chreadigrwydd wrth wraidd popeth a wnawn.

Eleni rydym wedi llunio cynlluniau terfynol i adnewyddu ein mannau cyhoeddus a manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf gyda sgriniau newydd i arddangos ein gwaith.

Rydym hefyd wedi cwblhau astudiaeth ddichonoldeb i greu Gofodau Creu ar gyfer hyfforddiant sgiliau i bobl ifanc, yng nghanol ein hadeilad. Bydd y rhain yn weladwy ac yn hygyrch iawn i bawb, gan gynnwys ein cwmnïau preswyl, partneriaid, ysgolion ac ymwelwyr, gan groesawu dros 7,000 o bobl y flwyddyn.

Cafodd y cynllun hwn ei gydgynhyrchu â'r penseiri ROA a grwpiau o bobl ifanc a sefydliadau a fydd yn defnyddio'r gofodau.

Bar a chaffi Croeso newydd



Gofod cabaret newydd




Gofod adrodd straeon digidol, Bocs





O'R RADD FLAENAF



Gofod stiwdio arfaethedig





## "Y PRIF NOD YW GADAEL I BOBL WYBOD BETH RYDYM YN GALLU EI GYFLAWNI YMA A DEFNYDDIO'R GOFOD.

Rwy'n credu ei bod mor dda mai pobl ifanc sydd wedi creu gofodau i bobl ifanc eraill. Beth rydym yn ei weld gryn dipyn ym mhob diwydiant, rwy'n credu, yw pobl sydd ddim yn adnabod eu cynulleidfa darged yn creu pethau ar gyfer y gynulleidfa darged honno – dyw hi byth yn llwyddo mewn gwirionedd. Rwy'n credu ei bod yn beth da bod gennyn ni ein barn ein hunain ac rydyn ni'n gwybod beth sydd ei eisiau arnon ni, rydym yn gwybod beth sydd ei eisiau ar ein grŵp oedran. Felly, mae'n beth da ein bod yn ei arwain bron."

Aelod o Griw Ieuenctid
Canolfan Mileniwm Cymru

Yn 2022/23 byddwn yn cwblhau'r gwaith ar ein mannau cyhoeddus a'r gwaith paratoi a'n cynlluniau ar gyfer Gofodau Creu, yn ogystal â threialu dulliau adrodd straeon digidol newydd ar gyfer 'Ardal Ysbrydoliaeth a Chwilfrydedd'. Byddwn hefyd yn trefnu i greu hwb cynhyrchu a sgiliau, fydd yn rhoi lle i ni ymarfer a pherfformio mwy o'n gwaith ein hunain, yn ogystal â gofod ychwanegol i'w rannu â'n cymuned greadigol ar gyfer hyfforddiant, ymarferion a ffilmio. Ein gobaith yw y bydd yn rhan greiddiol o'r gwaith o drawsnewid Bae Caerdydd yn ardal ddiwylliannol o fri yn rhyngwladol ochr yn ochr â'r arena newydd ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd a phartneriaid eraill i gyflawni hyn.

# SBOTOLAU SIOEAU RHYNGWLADOL BYTHGOFIADWY



O'R RADD FLAENAF

Canolfan Mileniwm Cymru yw'r unig le yng Nghymru a all gynnal cynyrchiadau teithiol o'r radd flaenaf, gan gynnwys Opera Cenedlaethol Cymru. Rydym yn ei gwneud yn bosibl i bobl weld a phrofi emosiwn y sioeau gorau, gan gynnwys drwy ein seddi cymunedol.

Ynghyd â'r cymorth hael gan ein cymuned, mae'r incwm a gynhyrchir drwy'r sioeau hyn yn ein galluogi i wireddu ein prosiectau trawsnewidiol. Ailagorwyd Theatr Donald Gordon, â 1,900 o seddi, ym mis Medi 2021 ond bu'n rhaid cau unwaith eto rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

## 131,000+ O DOCYNNAU AR GYFER 147 O BERFFORMIADAU, GAN GYNNWYS:

- BARBER OF SEVILLE OPERA CENEDLAETHOL CYMRU
- THE BOOK OF MORMON
- EVERYBODY'S TALKING ABOUT JAMIE
- GREASE
- HEATHERS
- BEAUTY AND THE BEAST
- BEDKNOBS AND BROOMSTICKS
- JENUFA OPERA CENEDLAETHOL CYMRU
- ROB BRYDON
- NUTCRACKER MATTHEW BOURNE

Yn 2022/23 byddwn yn croesawu sioeau poblogaidd, gan gynnwys Les Misérables, Charlie and the Chocolate Factory, The Ocean at the End of the Lane a sawl cynhyrchiad gan Opera Cenedlaethol Cymru. Rhagwelwn y bydd cynulleidfaoedd yn Theatr Donald Gordon yn dychwelyd i lefelau sy'n agosach i'r hyn a welwyd cyn y pandemig – dros 416,000 o docynnau ar gyfer dros 300 o berfformiadau yn 2018/19.

# SBOTOLAU
# AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Fel canolfan gelfyddydau genedlaethol Cymru, rydym yn ymrwymedig i wneud lle i bob llais a safbwynt – yn ein gweithlu a'n diwylliant, ein prosesau gwneud penderfyniadau, y cynnwys a gyflwynwn a'r gofodau yn ein hadeilad. Yn 2021/22 gwnaethom ddatblygu a diweddaru cynllun amrywiaeth 2020, yn ogystal â pharhau â'n hymrwymiadau i'r Gymraeg.




O'R RADD FLAENAF

- CYFLOGWR CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL ACHREDEDIG O FIS EBRILL 2021 AC WEDI YMRWYMO I'R COMPACT SWYDDI CYMUNEDOL
- WEDI PARHAU I FOD YN GYFLOGWR HYDERUS O RAN ANABLEDD
- WEDI SEFYDLU RHWYDWAITH AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT I GYFLOGEION
- 51% O'N HAELODAU PARHAOL O STAFF YN MEDDU AR RYW LEFEL O SGILIAU IAITH GYMRAEG
- 7,000+ O'N CWSMERIAID WEDI COFRESTRU I GAEL GOHEBIAETH YN GYMRAEG NEU'N DDWYIEITHOG
- WRTHI'N GWEITHIO AR 2 GYNHYRCHIAD CYMRAEG GAN GANOLFAN MILENIWM CYMRU

Yn 2022/23 byddwn yn parhau i gydweithio â chymunedau lleol i greu cyfleoedd i feithrin cydberthnasau a rhannu cyfleoedd cyflogaeth. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a Remploy i fentora pobl ifanc 16–24 oed o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol sy'n chwilio am waith. Byddwn yn cynhyrchu un cynhyrchiad Cymraeg ac yn parhau i ddatblygu un arall, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i raglennu gwaith cyfrwng Cymraeg yn Stiwdio Weston a'n gofod cabaret.

# SBOTOLAU CYMDEITHION CREADIGOL AC ARTISTIAID CYNORTHWYOL

Rydym yn ymwybodol o'r anghydraddoldebau yn ein sector. Mae llu o artistiaid llawrydd ac unigolion creadigol wedi parhau i wynebu anawsterau wrth ddod drwy'r pandemig – nid ydynt yn gallu datblygu eu hymarfer creadigol, maent yn ddi-waith ac, yn aml, maent yn anghymwys i gael unrhyw gymorth o dan y cynlluniau cymorth ariannol brys. Rydym yn anelu at roi creadigrwydd ac artistiaid wrth wraidd popeth a wnawn.

- LANSIWYD EIN RHAGLEN CYMDEITHION CREADIGOL YN 2021/22, GYDA PHROSES GALW AC YMGEISIO HYGYRCH. CAWSOM 200 O GEISIADAU A PHENODWYD 8 ARTIST I WEITHIO YM MHOB RHAN O GANOLFAN MILENIWM CYMRU.

**“PAN WELES I'R RÔL CYDYMAITH CREADIGOL YN CAEL EI HYSBYSEBU, FY YMATEB I OEDD “BETH?”...**

Roeddwn i'n canmol fy lwc am fy mod i'n gallu datblygu fy ymarfer fy hun yn ogystal â gweithio gyda'r tîm yma yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Roedd yn sefyllfa ddelfrydol i mi fel artist.

Rôl dwy flynedd yw hi. Mae wedi bod yn wych. Mae wedi bod yn gynhyrchiol... Yn 2021 fe helpes i i guradu llwyfan yn Stiwdio Weston [ar ran Gŵyl y Llais ] a oedd yn cynnwys chwech i saith awr o berfformiadau byw gan artistiaid o bob rhan o Gymru, o artistiaid ar ddechrau eu gyrfa i artistiaid a oedd wedi cyrraedd y brig. Roedd yn wych cael pawb at ei gilydd mewn un stafell.

Perthynas ddwy ffordd yw'r rhaglen Cymdeithion Creadigol. Yn gyntaf, mae'r artistiaid yn cael cyfle i ddatblygu eu hymarfer, i ddod yn rhan o lasbrint yr adeilad hwn. Yn ail, mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cael cyfle i weithio gyda gwahanol artistiaid ac unigolion creadigol o gefndiroedd, galwedigaethau a grwpiau ethnig gwahanol.”

Tumi Williams, Cydymaith Creadigol



- WEDI RHOI CYMORTH I UNIGOLION GYMRYD RHAN YN Y TASGLU I WEITHWYR LLAWRYDD
- WEDI CEFNOGI ‘LOYALTY' (RHAGLEN SY'N CEFNOGI DATBLYGIAD ARTISTIAID DU) YN ARIANNOL AC O RAN GOFOD A CHYNGOR
- WEDI MENTORA AC WEDI RHOI GOFOD AC ADNODDAU I AMRYWIAETH EANG O ARTISTIAID SYDD Â SYNIADAU AR GAM CYNNAR A THU HWNT, AR-LEIN AC WYNEB YN WYNEB LLE Y BO MODD
- WEDI AILBWRPASU UN O'N HYSTAFELLOEDD CYFARFOD MWYAF, A'I THROI'N OFOD YMARFER LLAWN AMSER A ALL GAEL EI HURIO A'I DDEFNYDDIO GAN EIN HOLL BARTNERIAID
- WEDI CYNNIG I 25+ O SEFYDLIADAU AC ARTISTIAID CYMUNEDOL 500+ O ORIAU O OFOD YN DDI-DÂL AR GYFER YMARFERION, YMCHWIL A DATBLYGU, FFILMIO A GWEITHDAI

Yn 2022/23 byddwn yn rhannu ein hadnoddau – ein hamser, ein gofodau neu ein harbenigedd – â phartneriaid, artistiaid, pobl ifanc a chymunedau creadigol sy'n cydweithio â ni. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn mentrau fel y rhaglen Cymdeithion Creadigol.

# SBOTOLAU
# Y CRIW IEUENCTID



Yn 2021/22 lansiwyd y Criw Ieuenctid, sef grŵp etholedig o bobl ifanc sy'n defnyddio ein hadeilad i feithrin sgiliau trosglwyddadwy, darganfod diddordebau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau a chydweithio â chyrff gwneud penderfyniadau yng Nghaerdydd. Mae'r criw yn ysbrydoli ein hagenda i gynnig arlwy sy'n cyd-fynd â diddordebau pobl ifanc yn well. Yn ystod 2021/22 mae'r aelodau wedi ein cefnogi gyda'r weledigaeth ar gyfer ein Gofodau Creu.






**“MAE'N AMSER CYFFROUS I NI WEITHIO GYDA GRŴP MOR DALENTOG O BOBL IFANC A FYDD YN EIN HELPU I WNEUD PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL AM EIN GWAITH GYDA PHOBL IFANC.”**

Jason Camilleri, Uwch-gynhyrchydd, Canolfan Mileniwm Cymru

Yn 2022/23 bydd y 12 aelod o'r Criw Ieuenctid yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn codi materion ynglŷn â chyfleusterau, cyfranogi, cynhwysiant, mynediad ac amrywiaeth.




# SBOTOLAU GWIRFODDOLWYR

Mae ein cynllun gwirfoddoli yn datblygu sgiliau, syniadau a chyfeillgarwch, ac yn rhoi cyfle i unigolion gymryd rhan yn ein gwaith mewn ffyrdd newydd ac unigryw. Mae ein gwirfoddolwyr yn ein cefnogi mewn rolau blaen y tŷ yn bennaf ac fel y bobl gyntaf i groesawu ymwelydd â'n hadeilad, maent yn rhan amhrisiadwy o'n gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

> “RWYF WEDI CWRDD Â PHOBL AC WEDI GWELD SIOEAU NA FYDDWN I BYTH WEDI GALLU GWNEUD HEB GANOLFAN MILENIWM CYMRU. FE DDECHREUES I FEL GWIRFODDOLWR AR ÔL SYMUD I GAERDYDD LLE DOEDDWN I DDIM YN NABOD NEB. MAE CANOLFAN MILENIWM CYMRU WEDI GWNEUD I MI DEIMLO FY MOD I'N LLAWER LLAI O DDIEITHRYN AC WEDI BOD YN HYNOD BWYSIG I MI.”
>
> Gwirfoddolwr

- 224 O WIRFODDOLWYR – 27% OHONYNT YN NEWYDD
- 12,884 O ORIAU
- CYFRADD GADW O 97%
- ROEDD 58% YN CYTUNO'N GRYF FOD GWIRFODDOLI WEDI GWELLA EU SGILIAU (GAN GYNNWYS SGILIAU MEGIS HYDER AC ANNIBYNIAETH)
- ROEDD 57% YN TEIMLO BOD MYNEDIAD AT Y CYNLLUN WEDI GWELLA EU HIECHYD A'U LLESIANT
- ROEDD 12% O'R GWIRFODDOLWYR YN TEIMLO NA FYDDENT YN GALLU DOD I GANOLFAN MILENIWM CYMRU O GWBL ONI BAI AM Y RHAGLEN WIRFODDOLI

Yn 2022/23 byddwn yn adolygu ein prosesau recriwtio er mwyn sicrhau mwy o hyfforddiant sgiliau ac amrywiaeth wrth i ni ehangu'r cynllun.

# SBOTOLAU CYNALIADWYEDD

Fel lleoliad mawr sy'n cael 1.8 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn ac sy'n gampws diwylliannol ac yn gartref i sawl sefydliad arall, rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau a'n gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn ystyriaeth greiddiol i'n holl brosiectau a gweithgareddau.

- 720 O BANELI SOLAR WEDI'U GOSOD, GAN ARBED £30,000 Y FLWYDDYN A CHYNHYRCHU TUA 10% O'N HANGHENION YNNI TRYDANOL – DIGON I BWERU EIN GWEITHGAREDDAU LLWYFAN BOB BLWYDDYN
- 174 O OLEUADAU YNNI EFFEITHLON WEDI'U GOSOD – SYDD WEDI LLEIHAU YNNI 64%
- YN CYNNIG E-DOCYNNAU AR GYFER POB SIOE A DIGWYDDIAD
- YN FALCH O GEFNOGI RHWYDWAITH GWRES ARDAL CAERDYDD WERDDACH
- YN GWEITHIO GYDA CADWCH GYMRU'N DACLUS AR FENTRAU I REOLI GWASTRAFF YN EFFEITHIOL DRWY'R SAFLE CYFAN
- MAE'R HOLL DDIODYDD YN Y BAR YN CAEL EU GWEINI MEWN CWPANAU PLASTIG AMLDRO SYDD HEFYD YN GWBL AILGYLCHADWY







O'R RADD FLAENAF



Yn 2022/23 byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â'n strategaeth gynaliadwyedd drwy ailstrwythuro ffrydiau rheoli gwastraff, gan weithio tuag at fod yn garbon niwtral yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

# SBOTOLAU PARTNERIAETHAU



**Mae ein hadeilad eisoes yn gampws diwylliannol, ac yn gartref i wyth sefydliad creadigol arall:**



Tŷ Cerdd



Opera Cenedlaethol Cymru



Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC



Urdd



Hijinx



Touch Trust



Llenyddiaeth Cymru



Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Un rhan allweddol o'n rôl fel canolfan gelfyddydau genedlaethol o'r radd flaenaf yw dod â'r diwydiannau creadigol ynghyd. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio gyda mwy na 50 o bartneriaid ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol bob blwyddyn i ddenu adnoddau a sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl i Gymru. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Caerdydd a llu o sefydliadau addysg, sgiliau, cymunedol a chreadigol ledled Cymru a thu hwnt.

> **DIOLCH I'R HOLL STAFF YN Y GANOLFAN AM FOD MOR HYNOD GEFNOGOL FEL TÎM Y GALLWN WEITHIO AG EF;** mae'r profiad a roddir i'n myfyrwyr bob amser o'r safon uchaf ac [rydym] yn ddiolchgar tu hwnt am lefel eich ymrwymiad i'n partneriaeth – diolch o galon.
>
> **Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**

# DIOLCH

**Diolch yn fawr i'n rhoddwyr unigol, ymddiriedolaethau a sefydliadau, ein haelodau a'n noddwyr corfforaethol. Hebddynt, ni allem fod wedi parhau â'n gwaith gyda phobl ifanc a chymunedau ar adeg pan oedd arnynt ein hangen fwyaf.**

Mae'r gefnogaeth barhaus gan ymddiriedolaethau a sefydliadau wedi bod yn hanfodol i barhad ein gwaith cymunedol a dysgu.

Parhaodd ein haelodau corfforaethol i fod yn gefnogol tu hwnt, a chytunodd Admiral i ddod yn rhan o'r grŵp hwn eleni.

Drwy gymorth unigolion bu modd i ni barhau i ddatblygu ein cynyrchiadau ein hunain; am hyn rydym yn hynod ddiolchgar i Bob a Lindsay Clark, Peter a Jan Swinburn a Dr Carol Bell.

**Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn newid bywydau er gwell yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut i ymuno â'r grŵp hwn: wmc.org.uk/cy/ymuno-a-rhoi**





# DADANSODDIAD ARIANNOL

**YN 2021/22 CAWSOM WERTH £100,000+ O RODDION GAN 9,182 O RODDWYR UNIGOL**

**DIOLCH O GALON – RYDYM YN DDIOLCHGAR IAWN AM EICH CEFNOGAETH**






## CANOLFAN MILENIWM CYMRU


## INCWM – BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22 O GYMHARU Â 2019/20*

### CYFANSWM – £15,655,000 O GYMHARU Â £22,426,000




## GWARIANT – BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22

### CYFANSWM – £17,998,000




*Roeddem ar gau am bythefnos yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.
**Gan gynnwys dibrisiant, cyflogau, costau swyddfa a chostau cyfreithiol ac archwilio.
Noder: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf. Ni chaiff y ffigurau hyn eu ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau tan fis Ionawr 2023.

# DIOLCH I'N CEFNOGWYR



## NODDWYR CORFFORAETHOL

- Admiral
- Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- PARMER CARDIFF WATERSIDE
- FUTURE INNS
- CHAMPAGNE TAITTINGER Reims
- QUANTUM ADVISORY WORKING IN PARTNERSHIP WITH YOU
- GLAMORGAN BREWING CO.
- HOWELL'S SCHOOL Llandaff GDST
- thomascarroll GROUP PLC
- CAPITAL APARTMENTS
- ARUP
- Atradius Managing risk, enabling trade
- SONY UK Technology Centre
- STOWE FAMILY LAW
- Clear Channel

# DIOLCH I'N CEFNOGWYR



## YMDDIRIEDOLAETHAU A SEFYDLIADAU

British Council

Cyngor Celfyddydau Cymru

Elusen Margaret Davies

Llywodraeth Cymru

Sefydliad Garfield Weston

Sefydliad Moondance

Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray

Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson

## NODDWR SEFYDLU

Syr Donald Gordon

## LLYWYDD OES

Yr Arglwydd Rowe-Beddoe DL

## CEFNOGAETH ARBENNIG

David Morgan

Er cof am David Seligman OBE
a Philippa Seligman

Peter a Babs Thomas

## CYLCH Y CADEIRYDD

Dr Carol Bell

Phillip Carne

Bob a Lindsay Clark

Y Fonesig Vivien Duffield DBE

Diane Briere de l'Isle-Engelhardt OBE

Henry Engelhardt CBE

Dyfrig a Heather John

John a Doreen Morgan

Alan a Maggie Peterson

Sylvia Richards er cof am
Clive Richards CBE KSG DL

Yr Arglwydd a'r Arglwyddes Rowe-Beddoe

Mr David Stevens CBE a Mrs Heather Stevens CBE

Mr Peter a Mrs Janet Swinburn

Peter a Babs Thomas

## AELODAU PARTNER AWEN

Ms Ayesha Al-Sabah

Dean Barnard

Mary a David Beynon

Mrs Jacqueline Bird

Rosina Bridgeman

Mr Robert Cross

Mrs Janet Davies

Mr Christian Du Cann

Mr P Ellis a Mrs V Wood

Sigi Evans

Russell Harris C.F. a Mrs Nicola Harris

Mr a Mrs Granville a Sheila John

Mr a Mrs William R Jones

Mr Hopkin Joseph

Mrs Eirlys Pritchard Jones

Mrs Francesca Kitchen

Dr Phillip Lane

Yr Athro Michael Levi

Dr a Mrs Richard Logan

Mr a Mrs Michael McGrane

David Noble a Helen Such

Dr M L Nussbaum

Georgina a Len Phillips

Julienne Damaris Rowlands

Claire a Simon Wyatt

1 Unigolyn Dienw

**Diolch hefyd i'n haelodau Partner, Ffrind+ a Ffrind a rhoddwyr eraill am eu cymorth**

© Canolfan Mileniwm Cymru
Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL
www.wmc.org.uk
Rhif elusen gofrestredig 1060458

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED



# NI YW CANOLFAN MILENIWM CYMRU – TANWYDD I'R DYCHYMYG